## Y Bermo i Dal-y-bont

Anadlwch aer y môr wrth i chi gychwyn eich taith gerdded heddiw ar draeth y Bermo. Dechreuwch eich taith hanesyddol trwy ymweld ag eglwys y Santes Fair o'r 13eg ganrif ac yna esgyn i'r bryniau heibio bryngaerau hynafol, aneddiadau anghofiedig a siambrau claddu Neolithig. Cerddwch yn y tawelwch wrth ymyl afon Ysgethin ac yna i lawr trwy goetir i bentref Tal-y-bont.

Cyn y 18fed ganrif roedd y Bermo yn bentref pysgota bychan, anghysbell. Erbyn y 1750au, fodd bynnag, roedd adeiladu llongau wedi dod yn grefft ffyniannus, ac erbyn 1770 roedd y dref wedi'i sefydlu'n dda fel porthladd bychan. Roedd llawer o'r fasnach yn canolbwyntio ar ddiwydiant gwlân Meirionnydd yn ogystal ag allforion llechi. Dyfnhawyd yr harbwr ac adeiladwyd cei newydd ym 1802, gan roi hwb i'w gapasiti. Yn sgil dyfodiad y rheilffordd ym 1867 tyfodd y Bermo i fod yn gyrchfan glan môr ffyniannus. Rhagor o wybodaeth

Lleoliadau Stampiau: Y Santes Fair a Badfan Sant. Ysgethin Inn

Cyfarwyddiadau:

1. Gan ddechrau ar flaen yr harbwr, cerddwch ar hyd y promenâd gyda'r môr ar y chwith a'r adeiladau ar y dde. Ar ôl mynd heibio'r twyni tywod mae gennych ddewis i gerdded ar hyd y traeth neu'r promenâd (gan ddilyn arwyddion llwybr yr arfordir hyd at bwynt 4).

2. Cerddwch ar hyd y promenâd, 2200 metr. Ar ben pellaf y promenâd, dilynwch y llwybr sy'n arwain at y groesfan reilffordd fechan. Croeswch pan fo'r golau'n wyrdd a dilynwch y ffordd sy'n troelli i fyny i'r briffordd.

3. Ar ôl cyrraedd y briffordd, trowch i'r chwith a cherdded heibio eglwys fechan ar y chwith. Ewch ymlaen am 650 metr nes i chi gyrraedd porth mynwent ac eglwys y Santes Fair a Sant Bodfan, Llanaber.



Sefydlwyd y safle ar gyfer addoli Cristnogol yn y 6ed ganrif gan Sant Bodfan. Mae'r eglwys bresennol yn dyddio'n ôl i'r 13eg ganrif er ei bod wedi gweld llawer o waith ehangu ers hynny. Mae dwy garreg o'r 5ed/6ed ganrif ('Cerrig Calixtus'), ag arysgrif Lladin, wedi'u lleoli yn yr eil ogleddol. Rhagor o wybodaeth.

4. Dychwelwch i'r briffordd (trwy'r porth mynwent) a throi i'r chwith heibio'r eglwys gyda'r môr ar y chwith. Croeswch y ffordd a dilynwch yr arwydd llwybr troed i fyny'r

ffordd fechan. Dilynwch y ffordd tan i chi i gyrraedd giât, ewch trwy'r giât hon ac yn syth i fyny i'r dde gan ddilyn yr arwydd llwybr troed.

5. Mae'r ffordd gefn rhwng dwy wal yma. Ewch trwy'r giât ac i fyny'r bryn ar y ffordd gefn hon. Dilynwch y ffordd gefn drwy'r giatiau/camfeydd a dau gae agored cyn unwaith eto dychwelyd i ffordd gefn â waliau. Ar ben y ffordd gefn (lle dewch at dwmpath o gerrig, gyda rhannau muriog ar y brig), trowch i'r chwith a chadwch y wal ar y chwith tan i chi gyrraedd giât fechan.

6. Ewch trwy'r giât fechan a cherddwch yn syth at y postyn crwn mawr tua 8m o'ch blaen, o'r fan hon gallwch weld llwybr glaswellt amlwg sy'n ymdroelli i fyny'r bryn. Dilynwch y llwybr hwn nes i chi ddod at wal a chamfa (chwith).

7. Ar ôl mynd dros y gamfa dilynwch lwybr glaswellt bychan tuag at ganol y cae ac i fyny ac fe welwch chi olion muriog anheddiad ar y chwith. Mae darn o lwybr garw yn parhau'n syth i mewn i ardal gorsiog, ac ar yr ymyl chwith pellaf fe welwch chi lwybr glaswellt da sy'n arwain i'r chwith ac i fyny nes i chi gyrraedd camfa arall (er mwyn osgoi'r gors gallwch fynd at yr olion rwbel i'r chwith a chadw at y tir uchel, gan gerdded ar ymyl y gors).

8. Ewch dros y gamfa yn y wal a dilyn llwybr cul trwy'r llwyni eithin, unwaith eto yn arwain i fyny i gyrraedd camfa mewn wal sydd gyfochrog â'r môr. Ewch ymlaen eto ar y llwybr glaswellt i gyrraedd twmpathau ponciog (ardal fwyngloddio) ac ail gamfa gyfochrog â'r môr.

**Mae'r rhain yn fwyngloddiau Mwyn Manganîs nas defnyddir. Cafodd yr ardal hon ei chloddio yn bennaf o tua 1835 hyd at ddiwedd y 19eg ganrif, yna roedd mwyn o ansawdd gwell o Ewrop ar gael.**

9. Trowch i'r chwith ar ôl mynd dros y gamfa a chadwch y wal ar y chwith wrth i chi fynd i lawr i waelod y dyffryn (240 metr). Ewch dros gamfa, dros bont fechan a nant ac ewch drwy'r adfeilion ac aros ar y llwybr gan gadw'r môr ar y chwith.

10. Ewch dros y gamfa hon a chadwch y wal ar y chwith am 675 metr, ewch dros ddwy gamfa arall nes i chi gyrraedd cornel lle mae’r wal yn mynd i gyfeiriad arall. Gadewch y wal a cherdded i'r dde o'r twmpath o'ch blaen ac i'r dde o'r ardal fwyngloddio sydd â ffens a thrwy fwlch mawr yn y wal. O'r fan hon cerddwch yn groeslinol i fyny'r bryn i gyrraedd arwyddbost.

11. O'r arwyddbost dylech allu gweld bwlch yn y wal, gyda wal gerrig dda yn mynd i lawr i'r chwith a wal doredig i'r dde. Ewch trwy hwn a cherddwch gan gadw wal gerrig

ar y chwith nes y gallwch groesi i'r cae chwith cyfagos. Cerddwch yn groeslinol i lawr i'r gornel chwith yn y gwaelod lle mae giât fetel.

12. Gyda chorlannau defaid i'r dde, cadwch y wal ar y chwith a cherdded ar hyd llwybr da ond creigiog am 1250 metr. Ewch ymlaen wrth i'r wal newid i ffens, yna wal eto ac yna fe welwch chi giât a chamfa. Ewch dros y gamfa a gadael y waliau, gan fynd yn syth ac ychydig i'r chwith yn y cae ar y llwybr sydd braidd yn aneglur, gan gadw'r môr ar y chwith. Yna mae'r trac yn cyrraedd giât fferm arall a chamfa. Croeswch yma ac fe welwch gasgliad enfawr o gerrig mawr i'r chwith, cadwch at y prif lwybr sy’n mynd ar i lawr i gyrraedd wal gydag arwyddbost cerdded, ewch ymlaen i lawr y bryn, gyda'r wal ar y chwith. Pan fo’r llwybr yn ymrannu cadwch i'r chwith rhwng y waliau i gyrraedd giât fferm a llwybr tarmac.



13. Ewch drwy'r giât a chadwch i'r dde i groesi'r bont, ar y giât ar y bont ceir yr enw Pontfadog. I ymweld â’r Siambr Gladdu Neolithig, dilynwch y cyfarwyddiadau isod; fel arall ewch ymlaen i gam.
Pan fyddwch yn cyrraedd y tai, parhewch ar hyd y ffordd am tua 400 metr i gyrraedd y Siambr Gladdu Neolithig ar ochr chwith y ffordd (os byddwch yn cyrraedd y nant, rydych wedi mynd yn rhy bell). Pan fyddwch yn barod, cerddwch yn ôl i’r tai olaf y buoch yn eu pasio; yn union gyferbyn â’r rhain mae llwybr troed (wedi’i arwyddo) sy’n eich arwain i mewn i’r coetir wrth ochr yr afon.



Mae’r Siambr Gladdu Neolithig hon yn dyddio i tua 4,000 CC. Mae’r heneb o bwysigrwydd cenedlaethol oherwydd ei photensial i gynyddu ein dealltwriaeth o arferion claddu a defodol cynhanesyddol.

14. Cadwch i'r chwith i aros ar y prif lwybr mawr ar hyd glan yr afon am ychydig llai na 2km. Ewch trwy giât droed bren. Cadwch i'r chwith wrth y fainc a mynd i lawr i ddod yn ôl at ymyl yr afon (ond peidiwch â chroesi'r afon, cadwch yr afon ar y chwith bob amser). Ewch dros ddwy nant fechan, heibio cwt pren a thrwy giât fawr. Dilynwch yr afon nes ei bod yn eich arwain at y brif ffordd yn Nhal-y-Bont.

Stampiau: Ysgethin Inn.